**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **25 MEDI 2014** |
| TEITL | **CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 12 MEDI 2014** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Gorffennaf 2014 hyd at 12 Medi 2014.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 12 Medi 2014:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---:|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 8 |
| Adroddiadau Eraill (memoranda ayb) | 1 |
| Adolygiadau Grant | 3 |
| Archwiliadau Dilyniant | 1 |
| Archwiliadau Ymatebol | 1 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeëdig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 12 Medi 2014, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Ysgolion Uwchradd - Llywodraethu | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 1 |
| Cofrestr Diogelwch Staff | Corfforaethol | | C | Atodiad 2 |
| Rhoddion a Lletygarwch Swyddogion | Corfforaethol | | C | Atodiad 3 |
| Cynllun Tywydd Garw | Corfforaethol | Cynllunio Argyfwng | B | Atodiad 4 |
| Prif System Gyfrifo - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Cyfrifeg | A | Atodiad 5 |
| Cymunedau'n Gyntaf - Y Rhaglen Newydd | Economi a Chymuned | Adfywio Cymunedol | C | Atodiad 6 |
| Digartrefedd | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Digartrefedd a Thai Cefnogol | B | Atodiad 7 |
| Gorchmynion Ffyrdd | Rheoleiddio | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | B | Atodiad 8 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, cymeradwyd Datganiadau Llywodraethu Blynyddol y Cyngor, GwE, y Cyd-Bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig a'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Roedd Archwilio Mewnol wedi gwneud cyfraniad allweddol i'r datganiadau hyn.

## 2.3 Grantiau

2.3.1 Adolygwyd gweithdrefnau gweinyddol y grantiau canlynol yn ystod y cyfnod:

- Grant Refeniw y Cyfnod Sylfaenol *(Addysg)*
- Gwasanaeth Ieuenctid - Grant Hyfforddi *(Economi a Chymuned)*
- Gwasanaeth Ieuenctid - Grant Refeniw *(Economi a Chymuned)*

2.3.2 Nid yw'r ffaith fod Archwilio Mewnol wedi adolygu'r grantiau yma yn golygu na fydd archwilwyr allanol o Swyddfa Archwilio Cymru neu gyrff eraill yn cynnal archwiliadau o'r grantiau yma hefyd. Fodd bynnag, disgwylir fod y gwaith y mae Archwilio Mewnol, a'r sicrwydd y bu'n bosib ei ddatgan am yr amgylchedd reolaeth, yn golygu y bydd angen llai o waith archwilio gan y cyfundrefnau hyn. Bydd hyn, yn ei dro, yn golygu lleihad yn y ffioedd y bydd yn rhaid i'r Cyngor ei dalu am archwiliadau allanol.

## 2.4 Archwiliadau Dilyniant

2.4.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwaith dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch | Corfforaethol | | **Derbyniol** |

2.4.2 Gosodir casgliadau gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** – pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn unol â'r disgwyl.

**Derbyniol** – y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

**Anfoddhaol** – nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

**Annerbyniol** – y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb eu gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.4.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2013**

Telerau Contractau - Gwiriadau DBS
Gwiriadau DBS Staff

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2014**

Trwyddedau Meddalwedd (Ysgolion)
Taliadau Uniongyrchol
Tocynau Teithio Rhad

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Medi 2014**

Gwirio Mesuryddion Perfformiad
Y Drefn Gwynion Corfforaethol
Porthladdoedd
Bryn Blodau, Llan Ffestiniog
Trefniadau Dros Nos yng Nghartrefi'r Cyngor
Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion
Ystadegau a Chyfrifiadau Ysgolion

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2014**

Trefniadau Hawlio Goramser
Diogelwch Glinfyrddau
Trefniadau Prydlesu Mewn Ysgolion
Trefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2015**

Cymunedau'n Gyntaf (Y Rhaglen Newydd)
Plas Ogwen
Cofrestr Diogelwch Staff
Parciau Gwledig

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2015**
Rhoddion a Lletygarwch Swyddogion

## 2.5 Archwiliad Ymatebol

2.5.1 Cwblhawyd ymchwiliad ymatebol Defnydd o Gyfieithwyr mewn Cyfarfodydd, yn sgil pryder a fynegwyd gan aelodau'r Gweithgor Gwella Rheolaethau am gyfieithwyr yn mynychu cyfarfodydd lle nad oedd eu hangen, am nad oeddynt yn cael gwybod fod aelodau perthnasol ddim am fynychu. Rhoddwyd diweddariad llafar i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 15 Gorffennaf.

2.5.2 Prif ddarganfyddiad yr archwiliad oedd nad yw'r sefyllfa yn cael ei weld yn broblem erbyn hyn. Fe amcangyfrifwyd gan yr Arweinydd Tîm Cyfieithu bod cyfieithydd yn bresennol heb angen mewn llai na 5% o gyfarfodydd / Pwyllgorau erbyn hyn. Nodwyd hefyd bod canran uchel o'r pwyllgorau hyn yn cael eu cynnal yng Nghaernarfon, sy'n golygu nad oes angen teithio. Er hyn nodwyd bod cyfnod oddeutu 2012 pan oedd presenoldeb diangen cyfieithydd yn oherwydd diffyg canslo amserol wedi dod yn broblemus.

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 13 Medi 2014.

### 3.2 Adroddiadau Drafft wedi eu rhyddhau

- System Taliadau - Cau i lawr 2013-14 *(Cyllid)*
- Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Dilyniant i Astudiaethau ar Ymgynghoriaeth Gwynedd *(Ymgynghoriaeth Gwynedd)*

### 3.3 Archwiliadau yn mynd rhagddynt

- Cynllun Olyniaeth a Chynllunio'r Gweithlu *(Corfforaethol)*
- Ffonau Symudol *(Corfforaethol)*
- NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) *(Corfforaethol)*
- Protocol ar Gyswllt Aelod - Swyddog *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Salwch – cyfeirio at Iechyd Galwedigaethol *(Corfforaethol)*
- Cronfa Bensiwn Gwynedd - Cau i lawr 2013-14 *(Cyllid)*
- Cysoni Banc - Cau i lawr 2013-14 *(Cyllid)*
- System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- System Gyflogau - Cau i lawr 2013-14 *(Cyllid)*
- Taliadau CHAPS *(Cyllid)*
- Canolfannau Hamdden *(Economi a Chymuned)*
- Cynllun Datblygu Amgueddfa ac Oriel Gwynedd *(Economi a Chymuned)*
- Traethau *(Economi a Chymuned)*
- Unedau Diwydiannol a Thechnoleg *(Economi a Chymuned)*
- Dilyniant - Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a’r Grant Amddifadedd Disgyblion *(Addysg)*
- Dilyniant - Gwirio Mesuryddion Perfformiad *(Corfforaethol)*
- Dilyniant - Parciau Gwledig *(Economi a Chymuned)*
- Dilyniant - Porthladdoedd *(Economi a Chymuned)*
- Dilyniant - Ystadegau a Chyfrifiadau Ysgolion *(Addysg)*
- Cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd *(Plant a Cefnogi Teuluoedd)*
- Grant Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol *(Plant a Cefnogi Teuluoedd)*
- Grant Teuluoedd yn Gyntaf *(Plant a Cefnogi Teuluoedd)*
- Diogelwch Safleoedd Ailgylchu *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Gwasanaeth Cynllunio - Amser i wneud Penderfyniadau *(Rheoleiddio)*
- Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd *(Rheoleiddio)*
- Rhaglenni Arolygu Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch *(Rheoleiddio)*
- Cofrestrau Risg Prosiectau Ymgynghoriaeth Gwynedd *(Ymgynghoriaeth Gwynedd)*
- Dilyniant i Astudiaethau ar Ymgynghoriaeth Gwynedd *(Ymgynghoriaeth Gwynedd)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i’r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Gorffennaf 2014 i 12 Medi 2014, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi’r argymhellion sydd eisoes wedi’u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

## YSGOLION UWCHRADD - LLYWODRAETHU
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod Llywodraethwyr Ysgolion Uwchradd Gwynedd yn cyflawni eu dyletswyddau yn unol â gofynion statudol, a chyfarwyddiadau Llywodraethwyr Cymru, Estyn a Cyngor Gwynedd.

Cwmpas yr Archwiliad

Dethol sampl o 5 ysgol uwchradd yng Ngwynedd gan eu hymweld i wirio fod Llywodraethwyr yr ysgol yn cyflawni'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt, a bod aelodau'r corff llywodraethol wedi derbyn hyfforddiant priodol i gyflawni eu dyletswyddau.

Prif Ddarganfyddiadau

Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad yw bod yna drefniadau cyffredinol da ar gyfer Llywodraethu mewn Ysgolion Uwchradd yn y sampl o ysgolion a archwiliwyd, ond fod angen tynhau ychydig ar rai rheolaethau. Mae angen sicrhau fod gwiriadau GDG (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) aelodau corff llywodraethwyr ysgolion yn cael eu diweddaru'n rheolaidd yn y dyfodol a bod yr Adran Addysg yn cael eu hysbysu yn amserol o newidiadau i aelodau a manylion corff llywodraethwyr ysgolion. Yn ogystal, mae angen sicrhau fod Llywodraethwyr yn diweddaru eu ffurflenni 'Hysbysiad Buddiannau Busnes Llywodraethwyr' yn flynyddol gan eu harwyddo a'u dyddio.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau Llywodraethu Ysgolion Uwchradd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid atgoffa ysgolion o'r angen i aelodau corff llywodraethol ysgolion diweddaru eu ffurflen 'Hysbysiad Buddiannau Busnes Llywodraethwyr' gan ei arwyddo a'i dyddio yn flynyddol, os oes newidiadau i'r ffurflen neu beidio.**
- **Dylid amlygu yng nghylchlythyr wythnosol ysgolion uwchradd y pwysigrwydd o hysbysu'r Adran Addysg yn amserol ac yn ysgrifenedig drwy lythyr neu e-bost o unrhyw benodiadau newydd, ddiswyddiadau neu addasiadau i fanylion aelodau corff llywodraethol ysgolion. Dylid cynnwys manylion cyswllt y swyddog/ion perthnasol yn yr Adran Addysg sydd angen i ysgolion amlygu'r newidiadau iddynt.**
- **Dylid amlygu i glerc corff llywodraethol ysgolion uwchradd y dylent gadw rhestr o fanylion gwiriadau GDG aelodau'r corff llywodraethol yn yr ysgol, gan eu hadolygu yn flynyddol a diweddaru gwiriadau GDG aelodau sydd dros 3 mlynedd oed.**
- **Dylid anfon nodyn atgoffa at sylw ysgolion o drefniadau newydd yr Adran Addysg gyda gwiriadau GDG ar Lywodraethwyr ysgolion, gan amlygu y dylai ysgolion ystyried diswyddo Llywodraethwr o'u gorff llywodraethol pe baent yn gwrthod derbyn gwiriad GDG, er mwyn cydymffurfio â Pholisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion y Cyngor.**

**COFRESTR DIOGELWCH STAFF**
**Corfforaethol**

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad hwn oedd sicrhau bod aelodau staff y Cyngor yn gwybod am fodolaeth a phwysigrwydd y Gofrestr Diogelwch Staff o fewn y gyfundrefn ac yn ei ddeall. Bod sensitifrwydd y gofrestr yn cael ei barchu gyda thegwch at aelodau staff a'r cyhoedd sydd yn gysylltiedig ag ef yn unol â deddf gwlad.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio bod staff yn ymwybodol o'r camau priodol ynglŷn â'r broses o ychwanegu/diddymu unigolion oddi ar y rhestr. Bod unigolion â hawl i'w weld yn deall gofynion y Ddeddf Diogelu Data ac yn ei rhoi ar waith wrth ymdrin a'r gofrestr. Sicrhau bod staff yn ymwybodol o brosesau codi ymwybyddiaeth achosion treisgar a hynny gan gydymffurfio gyda'r gofynion a amlinellir o fewn polisïau'r Cyngor sy'n gysylltiedig â'r gofrestr.

Prif Ddarganfyddiadau

Detholwyd sampl o wasanaethau oedd yn defnyddio y Gofrestr yn rhinwedd eu gwaith, a gwelwyd bod gan rai drefniadau eu hunain ar gyfer cofnodi achosion neu ddigwyddiadau bygythiol neu dreisgar. Y prif fater a amlygwyd o ganlyniad i hyn, yw nad yw'r "rhestrau" yn cyd-fynd â'r manylion sydd ar y Gofrestr Corfforaethol, ac yn cynnwys unigolion ychwanegol i'r rhai sydd wedi'w nodi ar y Gofrestr Corfforaethol. Mae hyn yn bryder oherwydd nad yw staff eraill yn gallu derbyn unrhyw rybuddion petaent yn dod ar draws yr unigolion hyn gan nad ydynt yn ymddangos ar y Gofrestr Corfforaethol. Arsylwyd hefyd nad yw pob gwasanaeth yn adrodd am ddigwyddiadau treisgar, ac felly nid yw pob achos treisgar yn wybodus i'r gwasanaeth Iechyd a Diogelwch i alluogi gweithrediad.

Darganfuwyd yn ogystal nad oedd staff yn cymryd mantais o hyfforddiant sydd ar gael iddynt mewn cysylltiad a'u diogelwch personol. O'r archwiliad, gwelwyd bod gweinyddiaeth y Gofrestr ei hunan yn dda iawn ac yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth mewn perthynas â hysbysu unigolion eu bod wedi eu cynnwys ar y Gofrestr. Fodd bynnag, serch bod y trefniadau canolog yn gadarn, mae pryder fod diffyg adrodd gan adrannau a'r ffaith fod gan rai adrannau restrau annibynnol eu hunain yn tanseilio y gyfundrefn gorfforaethol.

**Barn yr Archwiliad**

**(C)** **Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn y Gofrestr Diogelwch Staff gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid atgoffa Uwch Reolwyr/ Rheolwyr o bwysigrwydd anfon Swyddogion i fynychu'r hyfforddiant Diogelwch Personol, yn arbennig y rhai hynny sydd yn gweithio gyda risg uchel o fygythiad/ymosodiad.**
- **Dylid adolygu rhestr defnyddwyr y bas-data a dileu y rhai sydd un ai wedi gadael cyflogaeth y Cyngor neu wedi symud swydd ble nad oes angen yr hawl am fynediad mwyach.**
- **Dylid sicrhau bod unrhyw systemau annibynnol sydd o fewn gwasanaethau yn cyd-fynd gyda'r wybodaeth ar y Gofrestr Corfforaethol mewn perthynas ag unigolion treisgar neu safloedd anniogel.**

**RHODDION A LLETYGARWCH SWYDDOGION**
**Corfforaethol**

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod swyddogion yn cydymffurfio â Pholisi Rhoddion a Lletygarwch y Cyngor drwy gofrestru pob cynnig, os derbynnir y cynnig neu os gwrthodir ef, (heblaw ble nodir eithriad penodol yn y polisi Rhoddion a Lletygarwch – Swyddogion), a bod trefniadau mewnol priodol yn bodoli dros gynnal a diweddaru'r gofrestr.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio'r broses o gynnal y gofrestr rhoddion a lletygarwch swyddogion a sicrhau bod Swyddogion yn hysbysu'r Swyddog Monitro o unrhyw rodd neu letygarwch a dderbynnir neu a wrthodir er sicrhau fod egwyddorion sylfaenol y polisi a'r Cod Ymarfer yn cael eu gweithredu yn unol â'r gofynion.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod system mewn lle ar gyfer datgan cynigion o roddion a lletygarwch, a pe ddefnyddir y system yn llawn a chywir, y mae'n darparu adnodd gwerthfawr ac effeithiol er galluogi cadarnhau pe bai'r angen bod Swyddogion wedi ymddwyn yn foesegol gan sicrhau arbed enw da'r Swyddog a'r Cyngor.

Mae'r polisi ynghyd â'r ffurflen datgan ar gael ar y Mewnrwyd. Er hyn nid oedd yn hawdd i'w darganfod. Nodwyd nad yw'r broses datgan yn gaeth i'r ffurflen gan ei fod yn dderbyniol datgan ar ffurf e-bost.

Darganfuwyd bod yr holl Reolwyr a ymholwyd yn sgil yr archwiliad yn ymwybodol o fodolaeth y polisi. Serch hynny, mae'r archwilwyr yn teimlo fod mwyafrif yn gwerthfawrogi'r risg sydd ynghlwm â derbyn rhodd neu letygarwch yn unig, yn hytrach na gwerthfawrogi egwyddor y côd ymddygiad. Adolygwyd cynnwys y gofrestr a gwelwyd mai 74 ffurflen datganiad o gynnig am rodd neu letygarwch yn unig oedd wedi eu cyflwyno ers dechrau'r gofrestr yn Ionawr 2008. Dim ond 4 o'r rhain oedd yn datgan gwrthod cynnig. Darganfuwyd nad oedd ffurflen datganiad yn y gofrestr gan swyddogion o dair Adran. Mae dau o'r adrannau hyn yn adrannau sydd, oherwydd natur eu gwaith, yn debygol o dderbyn cynigion o roddion a lletygarwch.

Er ei bod yn amhosib mesur beth sydd ddim yn y gofrestr, barn yr archwilwyr yw bod tebygolrwydd mawr fod nifer o gynigion o rodd neu letygarwch ddim yn cael eu datgan. Ni awgrymir bod cam ymddwyn yn bodoli, ac nid oes tystiolaeth o gam ymddwyn, ond mae'n awgrymu bod diwylliant 'di-hid' tuag at egwyddor y polisi yn bodoli oddi fewn i rai gwasanaethau.
Barn yr archwilwyr yw bod cymynroddion yn bwnc rhy gymhleth i'w ymgorffori yn uniongyrchol i mewn i'r polisi yma, ac y dylai fod polisi unigol i ddelio hefo hyn yn benodol ac uniongyrchol.

**Barn yr Archwiliad**

**(C)** **Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn y datganiadau o gynigion rhoddion a lletygarwch gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai Rheolwyr sicrhau eu bod ynghyd a'u Swyddogion yn llawn ddeall egwyddor y côd ymddygiad a'r broses datgan, yn hytrach na gwerthfawrogi'r risg sydd ynghlwm a derbyn rhodd neu letygarwch yn unig.**

**CYNLLUN TYWYDD GARW**
**Corfforaethol**

Bwriad yr Archwiliad

Mae'n hanfodol bod y Cyngor yn ceisio darparu gwasanaeth i'r cyhoedd yn ystod tywydd garw. Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod yna drefniadau cadarn ar gyfer staff y Cyngor mewn achos o dywydd garw a'u bod yn cael eu gweithredu yn unol â'r polisi.

Cwmpas yr Archwiliad

Canolbwyntiodd yr archwiliad ar y mesurau sydd mewn lle ar gyfer achosion o dywydd garw gan gynnwys parhad gwasanaeth. Yn ogystal, bod dealltwriaeth o'r egwyddorion cyffredinol o'r amodau gwaith yn ystod adeg o dywydd garw.

Prif Ddarganfyddiadau

Amlygwyd bod anghysondebau ym mholisi Cynllun Tywydd Garw'r Cyngor yn dilyn ail strwythuro o fewn y Cyngor â'r newidiadau i'r uned cynllunio argyfwng. Mae cynllunio argyfwng nawr yn cael ei wasanaethu'n rhanbarthol ac yn cynnig cefnogaeth cynllunio argyfwng ar gyfer awdurdodau lleol Gogledd Cymru. Nid yw rhai o'r manylion o fewn y polisi yn gyfredol oherwydd y newidiadau yma. Mae ansicrwydd wedi bod ynglŷn â phwy fyddai'n cymryd cyfrifoldeb am swyddogaethau'r gwasanaeth e.e. trefniadau cerbydau 4x4. Dylid nodi bod manylion yr agweddau adnoddau dynol o'r polisi yn parhau'r un fath.

Gwelwyd bod defnydd da wedi ei wneud o gyfryngau cymdeithasol yn ystod tywydd garw gyda swyddogion y Cyngor yn defnyddio 'Facebook' a 'Twitter' yn y gorffennol i gadw swyddogion a'r cyhoedd yn gyfredol am ddatblygiadau. Cafodd digwyddiadau'r tywydd garw diweddaraf ei gyhoeddi ar y cyfryngau cymdeithasol hyn, gyda rhybuddion ynglŷn â ffyrdd wedi cau a gwasanaethau yn cael eu gohirio a diweddariadau cyson.

Bydd unrhyw gyfarwyddyd yn cael ei benderfynu ar y cyd: "Bydd y cyfarwyddyd corfforaethol yn cael ei benderfynu arno ar y cyd gan y Pennaeth Adnoddau Dynol, Pennaeth Gofal Cwsmer a'r Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol." Fodd bynnag mae'n hanfodol sicrhau bod y gweithrediad yma'n amserol er mwyn sicrhau bod cyfarwyddyd yn cael ei roi'n amserol i'r gweithwyr a'r cyhoedd.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn y Cynllun Tywydd Garw gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod trefniadau yn cael eu rhoi ar waith i ddiweddaru'r polisi unwaith y bydd y trefniadau ynglŷn â chyfrifoldebau wedi eu datrys.**
- **Dylid ystyried ychwanegu bod y Cyngor yn gwneud defnydd o gyfryngau cymdeithasol pan gaiff y polisi ei hadolygu.**
- **Dylid pwysleisio'r pwysigrwydd o weithredu yn amserol mewn achos o dywydd garw er mwyn sicrhau bod cyfarwyddyd yn cael ei roi'n amserol i'r gweithwyr, a'i fod yn hollol gywir.**

**PRIF SYSTEM GYFRIFO - ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL**
**Cyllid**

Bwriad yr Archwiliad
Mae Cod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

***Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol.***

Caiff y brif system gyfrifo ei hystyried yn "system ariannol bwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly mae bwriad cynnal adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

Cwmpas yr Archwiliad
Roedd yr adolygiad yma yn canolbwyntio ar reolaethau cynnal y brif system gyfrifo a thrafodion 2013/14.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd bod y rheolaethau allweddol a adolygwyd mewn lle ar gyfer y prif system gyfrifo. Gwelwyd bod mesurau mewn lle i wahaniaethu dyletswyddau yn seiliedig ar rolau, gwasanaethau a lefelau awdurdodi. Mae hawliau mynediad i'r system yn cael ei reoli'n ganolog, a gwelwyd fod proses flynyddol o adolygu hawliau defnyddwyr, er mai hysbysiad gan reolwyr gwasanaethau o unrhyw angen i addasu yw'r drefn fwyaf effeithiol.

Mae gweithdrefnau mewn lle i fonitro cyllidebau ac adrodd am amrywiadau. Wrth wirio sampl o'r llyfr gyllideb a'u cymharu hefo'r prif system gyfrifo, nodwyd bod amrywiaeth mewn 1 achos o 37. Fe ddeillir yr amrywiaeth o gamgymeriad ble defnyddir un côd ddwywaith gan olygu bod cod arall oddi fewn yr adran heb ei ddefnyddio o gwbl. Serch y camgymeriad, gwelwyd bod cyfanswm cyllideb yr adran yn cyd-fynd â'r llyfr cyllideb.

Mae prosesau diwedd cyfnod mewn lle i sicrhau cywirdeb trosglwyddiadau balansau a thrafodion. Mae gweithdrefnau mewn lle i reoli a chysoni'r system gyda chyfriflenni banc, trosglwyddiadau o systemau bwydo a chyfrifon rheolaethol er mwyn sicrhau cywirdeb a phriodoldeb.

**Barn yr Archwiliad**

**(A)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Prif System Gyfrifo - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn**

**CYMUNEDAU'N GYNTAF - Y RHAGLEN NEWYDD**
**Economi a Chymuned**

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol yn bodoli ar gyfer gweinyddu'r rhaglen newydd Cymunedau'n Gyntaf.

Cwmpas yr Archwiliad
Mae’r archwiliad yn cwmpasu yr agweddau canlynol:
• Bod telerau ac amodau’r grant wedi eu cytuno rhwng Llywodraeth Cymru a’r Cyngor yn ogystal â rhwng y Cyngor a’r 3ydd partïon.
• Bod y Cyngor a’r 3ydd partïon yn gweithredu yn unol â gofynion y grant.
• Bod gwariant a cheisiadau yn unol â’r gofynion.

Prif Ddarganfyddiadau
Ar sail y gwaith archwilio sydd wedi ei gwblhau, mae Archwilio Mewnol wedi darganfod fod risg sylweddol nad yw ansawdd ddogfennaeth, tystiolaeth a rheolaethau mewn perthynas â’r Grant Cymunedau’n Gyntaf – Y Rhaglen Newydd yn ddigonol i ganiatáu’r archwiliwr allanol i gynnal adolygiad ‘ysgafn’, a bydd rhaid iddynt gynnal archwiliad manwl hir, gyda’r canlyniad y caiff hynny ar eu ffioedd a’r arian fydd felly ar gael i wireddu amcanion y grant. Ymhellach , os na fydd ansawdd y dystiolaeth yn gwella, mae risg arwyddocaol o’r hawliad grant yn cael ei roi o dan amod, gyda’r canlyniad y gall Llywodraeth Cymru hawlio peth o’r arian yn ôl. Nid oedd dogfennaeth i gefnogi gwariant y grant yn cael eu marcio yn gywir pob amser fel eu bod yn cael eu cadw am y cyfnod cadw priodol, ac nid oedd copïau wedi eu harwyddo ar ffeil ar gyfer pob cytundeb sydd rhwng Cymunedau’n Gyntaf ac adrannau eraill y Cyngor/3ydd partïon.

**Barn yr Archwiliad**

**(C)** **Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth Cymunedau'n Gyntaf - Y Rhaglen Newydd gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod gwiriadau cymorth gwladwriaethol yn cael eu ffeilio ar ffeiliau y 3ydd partïon, fel eu bod ar gael i'w harchwilio ar unrhyw adeg.**
- **Dylid gwneud trefniadau cyn gynted â phosibl i gysylltu gyda Swyddfa Archwilio Cymru i drefnu ardystiad archwilydd allanol yn unol â Atodlen 5 Gofynion Archwilio yn y llythyr cynnig.**
- **Dylid sicrhau bod y rhestr asedau yn cael ei ddiweddaru fel bod cofnod cyflawn yn bodoli.**
- **Dylid cyflwyno ceisiadau i Lywodraeth Cymru yn unol ag amodau'r grant.**
- **Dylid hysbysu’r 3ydd partïon o’r pwysigrwydd eu bod yn darparu tystiolaeth briodol pob amser i gefnogi'r ceisiadau a gyflwynir ganddynt.**
- **Dylid sicrhau mewn achosion lle mae grantiau yn cael eu dyrannu i 3ydd partïon drwy broses o banel asesu bod tystiolaeth o'r broses yn cael ei gadw ar ffeil i gefnogi’r penderfyniad.**
- **Dylid sicrhau fod cytundebau yn cael eu derbyn yn ôl wedi eu harwyddo gan y grwpiau sydd yn derbyn arian grant.**

# DIGARTREFEDD
## Oedolion, Iechyd a Llesiant

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd cynnal adolygiad o'r rheolaethau mewnol sydd ynghlwm i'r Gwasanaeth Digartrefedd.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau'r Gwasanaeth o roi cymorth i unigolion sydd un ai yn ddigartref neu mewn peryg o fod yn ddigartref. Archwiliwyd yr elfennau o'r Gwasanaeth sydd wedi bod yn destun ymarferiad meddylfryd system Vanguard er mwyn sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol yn parhau yn y broses, yn ogystal â gweinyddiaeth y cynllun lesu tai sector preifat a threfniadau iechyd a diogelwch Hosteli'r Cyngor.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiadau sy'n deillio o'r archwiliad yw'r ffaith nad yw'r ymarferiad meddylfryd system Vanguard hyd yn hyn wedi lleihau effeithiolrwydd y rheolaethau mewnol sydd ynghlwm i wasanaethu'r digartref. Er bod yr ymarferiad wedi mynd rhagddo ers 2010, nid oedd wedi'i gwblhau ar amser yr archwiliad, ond o'r sampl o achosion archwiliwyd, gwelwyd fod y rheolaethau mewnol disgwyliedig yn parhau mewn lle.

Fodd bynnag, er bod gan unigolion sy'n ddigartref yr hawl i fudd-daliadau tai wrth aros mewn llety dros dro, darganfuwyd anghysondebau rhwng dyddiadau anfonebau gwely a brecwast ar gyfer sampl o unigolion gyda'r hyn sydd wedi nodi ar y system budd-daliadau tai.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol digartrefedd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid llunio rhestr eiddo sy'n cynnwys disgrifiad addas o ddodrefn ac offer sydd o risg uwch megis offer TGCh, peiriannau a pheirianwaith, yn unol â rheolau gweithdrefn ariannol y Cyngor, a marcio pob eitem fel bod modd ei hadnabod fel eiddo'r Cyngor.**
- **Dylid parhau i annog staff yr hosteli i fynychu cwrs 'Diogelwch Personol' y Cyngor.**
- **Dylid sicrhau bod unigolion digartref yn hawlio budd-daliadau tai am yr holl amser maent yn aros mewn llety dros dro, drwy gysoni unrhyw anfoneb Gwely a Brecwast gyda chofnodion yr Adran.**

**GORCHMYNION FFYRDD**
**Rheoleiddio**

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle ar gyfer mabwysiadu gorchmynion traffig ar ffyrdd Cyngor Gwynedd.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau gweinyddu a mabwysiadu gorchmynion traffig ar ffyrdd Cyngor Gwynedd.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiadau sy'n deillio o'r archwiliad yw'r ffaith bod gwelliant wedi bod yn nhrefniadau'r Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd o weinyddu gorchmynion ffyrdd Gwynedd. Fodd bynnag, nid oedd modd cyflawni pob prawf yn yr archwiliad gan nad oedd modd dod o hyd i ambell ddogfen o orchmynion hŷn y sampl. Ar amser yr archwiliad, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi'r bwriad o gael gwared â'r angen i awdurdodau priffyrdd fynd drwy’r broses o fabwysiadu gorchmynion ffyrdd ffurfiol ar gyfer materion parcio megis llinellau melyn dwbl.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb Gorchmynion Ffyrdd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Wrth wneud cais am orchymyn sy'n gwahardd trafnidiaeth trwodd dros dro, yna dylid sicrhau bod ymgeiswyr yn cyflwyno'r dogfennau amlinellwyd yn amod 2.2 o'r 'Polisi Cau Ffyrdd ar Gyfer Digwyddiadau', gan gynnwys asesiadau risg ynglŷn â materion traffig ac yswiriant cyfredol.**
- **Unwaith bydd gwaith ar wefan wedi ei gwblhau, dylid arddangos gorchmynion ffyrdd ar wefan y Cyngor yn ystod y cyfnod ymgynghori.**